

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

**Datganiad Tir Cyffredin
Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy**

Chwefror 2021

CDLI Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd

Datganiad Tir Cyffredin, Cyflenwad Dŵr a Thrin Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy

Rhagarweiniad

Paratowyd y Datganiad Tir Cyffredin hwn rhwng Cyngor Sir y Fflint a Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy sydd yn cyflenwi dŵr ac yn darparu gwaith trin dŵr gwastraff ar draws Sir y Fflint.

Pwrpas y ddogfen hon

Pwrpas y Datganiad Tir Cyffredin hwn yw gosod trafodaethau rhwng y partïon ac adnabod unrhyw wrthwynebiadau i bolisiau, os bu modd eu datrys ac a oes yna rai sydd dal yn weddill. Bydd yn darparu datganiad sefyllfa defnyddiol ar gyfer yr Arolygydd ac yn galluogi trafodaeth yn y broses Archwilio er mwyn canolbwyntio'n bennaf ar y meysydd lle mae anghydweld yn parhau. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin yn seiliedig ar enghraifft o fformat a awgrymwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn Archwiliadau blaenorol.

Trosolwg o ymgysylltu

1.2 Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Rhan 6. Mae'n rhaid i'r Archwilydd benderfynu bod y CDLI yn 'gadarn' er mwyn ei fabwysiadu (adran 64 o Ddeddf 2004). Un o'r profion yw 'a fydd y cynllun yn cyflawni?' Mae'n rhaid i'r Cyngor allu dangos bod y CDLI yn gyflawnadwy heb unrhyw rwystr sylweddol i'w weithredu. Mae hyn yn cynnwys dangos bod yr isadeiledd dŵr a charthffosiaeth yn ei le, neu y gall fod yn ei le i gyflenwi'r safleoedd a ddyrnwyd o fewn cyfnod y CDLI.

1.3 Mae Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn 'cyrff ymgynghori penodol' yn y broses gynllunio felly mae'r Cyngor wedi cydweithio'n agos â nhw trwy gydol y camau gwahanol o baratoi'r CDLI. Cafodd y safleoedd eu hasesu, a chafodd y dyraniadau sydd â chyflenwad dŵr, capasiti carthffosiaeth a/neu gapasiti gwaith trin dŵr gwastraff y gellir eu cyfyngu dros oes y CDLI eu nodi.

1.4 Mae mabwysiadu'r CDLI yn ffurfiol, ynghyd â manylion ar gyfraddau cyflenwi disgwylidig y dyraniadau a ddarparwyd gan y Cyngor, yn galluogi Dŵr Cymru/Hafren Dyfrdwy i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol i gefnogi cyflwyno'r Cynllun. Mae'r galw ar newidiadau i isadeiledd dros amser ac Atodiad 1 y ddogfen hon yn darparu diweddiariad mewn cysylltiad â galluogrwydd yr isadeiledd presennol i addasu i'r dyraniadau arfaethedig. Fe grëwyd y ddogfen hon er mwyn galluogi sylwadau penodol am safleoedd a ddyrannwyd er mwyn eu diweddarau'n hawdd er mwyn edrych ar y sefyllfa ddiweddaraf.

2.0 Dyletswyddau statudol Dŵr Cymru a'i gyfraniad yn y broses gynllunio

2.1 Dŵr Cymru yw'r ymgymwrwr dŵr a charthffosiaeth statudol sy'n cyflenwi dŵr i dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a rhannu cyfagos o Loegr. Glas Cymru yw'r perchennog, cwmni un pwrpas heb unrhyw gyfranddalwyr, a chaiff ei redeg er budd cwsmeriaid yn unig.

2.2 Mae Dŵr Cymru, ar ran ei gwsmeriaid ac yn unol â'i brif gyfrifoldebau a nodir o dan Adran 37 (dŵr) a 94 (carthffosiaeth) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), yn berchen, yn gweithredu, yn cynnal a chadw, yn gwella ac yn ymestyn y system o garthffosydd cyhoeddus, a phrif gyflenwad dŵr a chyfarpar cysylltiedig ynghyd â gwaith trin a gorsafoedd pwmpio ac mae ganddynt ddyletswyddau statudol cyfatebol i sicrhau draeniau effeithiol ac i wneud cyflenwadau dŵr ar gael.

2.3 Cefnogi datblygiad yw un o brif amcanion Dŵr Cymru, ynghyd â'i bwrpasau craidd i gyflwyno systemau glanweithdra effeithiol a dŵr yfed diogel i'w gwsmeriaid. Wrth geisio cefnogi twf, mae'n yn dibynnu ar y system gynllunio i sicrhau bod isadeiledd digonol ar waith er mwyn gwasanaethu datblygiadau. Mae'r pwysigrwydd sydd wedi'i briodoli i gyfranogiad Dŵr Cymru yn y broses gynllunio wedi'i adlewyrchu mewn canllawiau cenedlaethol.

3.0 Buddsoddi Cyfalaf Dŵr Cymru ar gyfer twf a datblygiad newydd

3.1 Cynhelir buddsoddiad cyfalaf Dŵr Cymru trwy raglen Cynllun Rheoli Asedau pum mlynedd. Mae Cynllun Rheoli Asedau 7 yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd sy'n ymdrin â buddsoddiad ar gyfer cyfnod 2020-25, bydd Cynllun Rheoli Asedau 8 yn dilyn ar gyfer 2025-2030. Fe ddaw'r cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf drwy filiau cwsmeriaid.

3.2 Mae'n rhaid i Ddŵr Cymru gyflwyno cynllun busnes ar gyfer buddsoddi ym mhob cylched Cynllun Rheoli Asedau ac er mwyn sicrhau bod arian y cwsmer yn cael ei fuddsoddi'n iawn, maent yn dibynnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gyda safleoedd datblygu wedi'u dyrannu i roi sicrwydd o dwf. Ni fydd rheoleiddiwr y diwydiant, Ofwat yn cefnogi buddsoddiad ar gyfer isadeiledd i wasanaethu twf sydd heb ei gadarnhau. Felly mae yna botensial y bydd yna wahaniaeth yn amserlenni'r Cynlluniau Rheoli Asedau a Chynlluniau Datblygu Lleol ac adegau pan mae amseroedd 'arwain' yn angenrheidiol er mwyn i brosiect isadeiledd a chyllid cysylltiedig ddwyn ffrwyth.

3.3 Cyflwynwyd Cynllun Busnes Cynllun Rheoli Asedau 7 (2020-2025) i Ofwat yn 2018 a derbyniwyd y penderfyniad terfynol yn 2019. Bydd cynlluniau i dderbyn y twf arfaethedig yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn cael eu hystyried i'w cynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau 7, serch hynny mae Ofwat yn disgwyl i ddatblygwyr chwarae eu rhan wrth ariannu twf a datblygiad newydd, ac na fydd yn rhaid i gwsmeriaid presennol Dŵr Cymru ysgwyddo byrdwn costau llawn y ddarpariaeth isadeiledd.

3.4 Pan fydd diffyg mewn cyllid ac os nad oes yna gapasiti yn y rhwydwaith lleol o asedau i allu derbyn twf newydd, gall y datblygwr naill ai aros tan y bydd Dŵr Cymru yn ariannu'r gwaith atgyfnerthu angenrheidiol drwy fuddsoddiad Cynllun Rheoli Asedau yn y dyfodol, neu dalu am y gwaith eu hunain trwy ddarpariaethau meddiant gorfodol Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu trwy Gytundebau Rhwymedigaethau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Dylid nodi mai dim ond ar gyfer gwaith atgyfnerthu rhwydwaith carthffosiaeth y mae darpariaeth meddiant gorfodol Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn berthnasol, nid cynlluniau Gwaith Trin Dŵr Gwastraff. Gall cyllid i gyflwyno gwaith atgyfnerthu Safleoedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff gael ei ddarparu trwy Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

4.0 Capasiti Isadeiledd Dŵr Cymru

4.1 Ers dechrau paratoi'r CDLI, mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad manwl gyda Dŵr Cymru sydd wedi asesu'r capasiti sydd ar gael yn eu rhwydwaith dŵr, rhwydwaith carthffosiaeth a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff er mwyn ymdopi â thwf arfaethedig. Mae'r galw ar newidiadau i isadeiledd dros amser, Atodiad 1 yn darparu diweddariad mewn cysylltiad â galluogrwydd yr isadeiledd presennol i ymdopi â dyraniadau arfaethedig. Serch hynny, dylid nodi bod sylwadau yn destun newid os bydd datblygiadau annisgwyl eraill yn cael eu cymeradwyo sydd yn effeithio ar y capasiti sydd ar gael yn yr isadeiledd sy'n gwasanaethu.

4.2 Mae Dŵr Cymru wedi dweud ei bod hi'n anodd darparu sylwadau pendant ar gapasiti ar gyfer dyraniadau cyflogaeth gan fod y galw posibl ar eu hisadeiledd yn anhysbys. Unwaith y bydd y math o ddefnyddiwr yn hysbys a manylion y gofynion gwastraff wedi'u cadarnhau, cynhelir asesiadau pellach. Dywedodd Dŵr Cymru mai dim ond dŵr budr 'domestig' o'r dyraniadau y mae'n rhaid iddynt ei gymryd, ac os bydd y defnyddiwr angen gollyngiad masnach i'r carthffos gyhoeddus yna mae angen caniatâd Dŵr Cymru fel yr ymgwymerwr carthffosiaeth.

a) Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

4.3 Bydd twf tai arfaethedig sydd wedi'i ddyrannu yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn cael ei wasanaethu gan 7 safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff – Bwcle Tŷ Gwyn, Caer, Cei Connah, Y Fflint, Yr Hôb, Yr Wyddgrug a Queensferry. Nid oes disgwyl y bydd gan bob un o'r safleoedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff gapasiti digonol i ymdopi â llif 'domestig' disgwylidig o dwf y CDLI, a bydd Dŵr Cymru yn parhau i fonitro galluogrwydd ein isadeiledd i ymdopi â'r twf a bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am gwaith sydd wedi'i gynllunio at y dyfodol drwy ein buddsoddiad rheoleiddio.

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Aneddiadau sy'n cael eu gwasanaethu
Bwcle, Alltami Road	Alltami
Bwcle Tŷ Gwyn	Bwcle, Leeswood, Pontblyddyn, Pontybodkin, Coed Talon
Caerwys	Caerwys, Afonwen
Cei Connah	Cei Connah, Northop Hall
Y Fflint	Y Fflint, Mynydd-Y-Fflint, Oakenholt

Maes-glas	Bagillt, Maes Glas, Treffynnon, Helygain, Pentre Helygain
Yr Hôb	Penyffordd
Licswm	Licswm, Rhos Y Cae, Ysceifiog
Llanasa	Berthengam, Ffynnongroyw, Llanasa, Gronant, Gwespyr, Talacre
Yr Wyddgrug	Gwernymynydd, Mold, Mynydd Isa, Nercwys, New Brighton, Sychdyn
Mostyn	Brynffordd, Carmel, Gorsedd, Mostyn
Nannerch	Nannerch
Llaneurgain	Llaneurgain
Pantymwyn	Cilcain, Pantymwyn
Queensferry	Queensferry, Shotton, Ewlo, Penarlâg, Sandycroft, Mancot, Drury, Burntwood
Rhosesmor	Rhosesmor
Rhydymwyn	Rhydymwyn, Hendre
Trelawnyd	Gwaenysgor, Trelawnyd, Marian
Treuddyn	Treuddyn
Chwitffordd	Chwitffordd
Caer	

b) Rhwydwaith dŵr budr

4.4 Mae'r capasiti sydd ar gael yn y rhwydwaith dŵr budr i ymdopi â dyraniadau'r CDLI wedi cael eu hystyried hefyd. Yn y lleoliadau hynny lle nad oes digon o gapasiti hydrologig yn bodoli, efallai y bydd angen asesiadau modelu hydrologig budr er mwyn sefydlu ar bwyntiau cysylltu addas a/neu gwaith atgyfnerthu angenrheidiol er mwyn gallu cysylltu'r safleoedd.

4.5 Mae datblygwyr posibl hefyd angen bod yn ymwybodol petai carthffosydd cyhoeddus yn croesi safleoedd, byddai angen mesurau amddiffyn ar ffurf lled hawddfrait neu wyro'r bibell allai effeithio ar ddwysedd y tai y gellir ei gyflawni ar y safle.

5.0 Yr hawl i gysylltu ac Amodau Grampian

5.1 Mae gan bob cwmni dŵr rhwymedigaeth gyfreithiol o dan adrannau 31 a 94 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i alluogi datblygwyr i gysylltu i'r systemau dŵr a systemau carthffosiaeth cyhoeddus.

5.2 Mewn rhai achosion, nid yw capasiti yn bodoli o fewn y systemau presennol er mwyn ymdopi â llwyth cynyddol o safle datblygiad. Mewn achosion o'r fath, gall yr awdurdod cynllunio wneud caniatâd cynllunio yn amodol ar fod cyfleusterau digonol i wasanaethu' datblygiad. Cynsail yr achos yw penderfyniad y Goruchaf Lys yn achos Barratt Homes v Dŵr Cymru pan benderfynwyd bod defnyddio amodau cynllunio 'Grampian' yn ddull priodol o sicrhau bod cysylltiad i garthffos yn cael ei reoli'n iawn.

5.3 Felly mae gan yr awdurdod cynllunio bŵer nad oes gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth, i atal datblygwr rhag gorlwytho'r system garthffosiaeth cyn i'r ymgwymerwr gymryd camau i ddiweddar'u'r system er mwyn ymdopi â'r llwyth ychwanegol. Yn gryno, mae gan ddatblygwr hawl i gysylltu ar yr amod bod gan y safle datblygu ganiatâd cynllunio ac nad oes yna amodau cynllunio pwysig ynghlwm â'r caniatâd hwnnw sy'n rheoli lleoliad neu amseru y cysylltiad corfforol hwnnw.

6.0 Casgliad

6.1 Ar ôl adolygu'r dyraniadau arfaethedig, mae Dŵr Cymru yn credu nad oes yna gyfyngiadau anorchfygol ynglŷn â galluogrwydd eu hisadeiledd i ymdopi â'r twf arfaethedig, nac ar alluogrwydd unrhyw waith atgyfnerthu isadeiledd i gael ei gyflawni. Ar gyfer rhai o'r safleoedd a ddyrannwyd, fe fydd rhaid i'r datblygwyr gyfrannu at ddarparu carthffosydd oddi ar y safle i gysylltu safleoedd i'r rhwydweithiau carthffosiaeth presennol. Efallai y bydd angen cynnal Aseidiadau Modelu Hydrolog hefyd ar gost i'r datblygwr i sefydlu pwyntiau cysylltiad a/neu unrhyw waith atgyfnerthu i'r rhwydwaith fydd ei angen. Mae'r gofynion yma fel arfer yn rhagofalon arferol i ddatblygwyr wrth symud ymlaen â safleoedd datblygu ac nid oes disgwyl iddynt arafu'r gwaith o gyflwyno safleoedd sydd wedi'u dyrannu. O ganlyniad, gall cyfuniad o waith atgyfnerthu trwy fuddsoddiad Cynllun Rheoli Asedau, cyfraniadau datblygwyr drwy A106, a'r broses ymgeisio sicrhau bod y safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu cyflwyno fel y'i cynigiwyd.

Atodiad 1: Capasiti Isadeiledd Carthffosiaeth

1. Os nad oes yna gyfleusterau carthffosiaeth cyhoeddus ar gael yn agos i'r safleoedd, efallai y bydd angen defnyddio carthffosiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif system garthffosiaeth. Mewn achosion o'r fath bydd darpariaethau Cylchlythyr 008/2018 Llywodraeth Cymru "Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carthion a gweithfeydd bach trin carthion" yn berthnasol a bydd angen ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

2. Mae gan Dŵr Cymru hawl mynediad i'w asedau drwy'r amser. Os oes yna garthffosydd sy'n croesi safleoedd yna bydd angen mesurau amddiffyn mewn cysylltiad â'r asedau hynny, fel arfer ar ffurf lled hawddfrait neu mewn rhai achosion, gwyrô'r ased.

7.0 Hafren Dyfrdwy (Dŵr Dyffryn Dyfrdwy gynt)

7.1 Mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am ddarparu cyflenwad parhaus o ddŵr yfed i 9 Ardal Cyngor Cymuned yn nwyrain a de Sir y Fflint. Sef:- Saltney, Brychdyn a Bretton, Penyffordd, Higher Kinnerton, Yr Hôb, ochr ddwyreiniol Sealand yn unig a mwyafrif cymunedau Leeswood, Treuddyn a Llanfynydd.

Mae ardal Sir y Fflint yn cynnwys dau barth adnoddau dŵr: Parth adnoddau dŵr Wrecsam sy'n cael ei gyflenwi gan dri safle gwaith trin dŵr, a Llwyn Onn (Wrecsam) yw'r prif weithfeydd. Parth adnoddau dŵr Saltney sy'n derbyn swmpgyflenwad gan Hafren Dyfrdwy.

8.0 Cysylltiadau i Awdurdodau Cyfagos Mae Hafren Dyfrdwy yn rheoli dŵr ar gyfer ardaloedd Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam a Phowys. Mae yma gysylltiadau gydag ardal Seven Trent hefyd, yn benodol ar gyfer ardal Gorllewin Caer a Chaer.

9.0 Materion Allweddol O ystyried dwysedd a lleoliad y datblygiad arfaethedig yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint, bydd angen isadeiledd dŵr i gefnogi datblygiad ar yr amser priodol. Bydd angen cynllunio a chyflwyno gwaith isadeiledd dros amser er mwyn galluogi a chefnogi twf tra'n gweithredu o fewn rheolau amgylcheddol.

9.1 Mae cynllunio Hafren Dyfrdwy ar gyfer datblygiadau newydd yn seiliedig ar bod y datblygiad yn cyrraedd safon rheoliadau adeiladu sef 110 litr fesul person y diwrnod.

10. Gofynion isadeiledd Bydd gofynion isadeiledd yn benodol i bob cynllun unigol a bydd amseru'r datblygiad, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig sydd wedi cael eu gwneud yn yr amser cyn y cynllun yn dylanwadu arnynt.

10.1 Mae datblygwyr posibl hefyd angen bod yn ymwybodol petai prif bibell ddŵr yn croesi safleoedd, byddai angen mesurau amddiffyn ar ffurf lled hawddfrait neu wyro'r bibell allai effeithio ar ddwysedd y datblygiad y gellir ei gyflawni ar y safle.

11.0 Ffynonellau Cyllido Byddai rhywfaint o'r gwaith isadeiledd sydd ei angen i gyflwyno'r safleoedd yn disgyn o fewn cylch gwaith Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Rheoleiddio Hafren Dyfrdwy, sy'n cael ei gytuno mewn cylchoedd o bum mlynedd. Bydd y rownd nesaf o gyllid, sydd wedi'i fanylu yng Nghynllun Rheoli Asedau 7, yn cael ei gymeradwyo yn 2019/2020 (ar gyfer cyfnod 2020-2025).

11.1 Mae Hafren Dyfrdwy wedi cynnwys y twf disgwylidig ar gyfer 25 mlynedd nesaf yn seiliedig ar wybodaeth cynllun datblygu awdurdodau lleol, ond os bydd datblygiad yn creu angen am gyfleusterau ychwanegol cyn Buddsoddiad Rheoleiddio Ymgymwrwr, fe allai fod yn rhesymol i ddatblygwyr dalu eu cyfraniad at y gost o ddarparu cyfleusterau o'r fath. Nid yw rheoleiddiwr y diwydiant, Ofwat yn cefnogi buddsoddiad ar gyfer isadeiledd i wasanaethu twf sydd heb ei gadarnhau, ac felly mae yna botensial am wahaniaeth mewn amserlenni rhwng Cynlluniau Rheoli Asedau a Chynlluniau Datblygu Lleol.

11.2 Bydd costau isadeiledd yn benodol i bob cynllun unigol a bydd amseru'r datblygiad, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig sydd wedi cael eu gwneud

yn yr amser cyn y cynllun yn dylanwadu arnynt. Felly nid yw hi'n bosibl i briodoli amcangyfrif o'r gost i'r eitem isadeiledd ar hyn o bryd.

Sylwadau am yr Ymgynghoriad i'w Archwilio gan y Cyhoedd Dŵr Cymru/Hafren Dyfrdwy					
Enw a Chyf. y Safle	Cyflenwad dŵr	Gwaith trin dŵr gwastraff	Dulliau cyllido	Sylwadau am y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd	Sefyllfa ddiweddaraf
Safleoedd Strategol					
STR3A Porth y Gogledd Safle Datblygiad Defnydd Cymysg	DCWW	Queensferry		Mae caniatâd cynllunio ar y safle ac nid oes gennym sylw pellach i'w wneud. Mae Dŵr Cymru wedi gwneud sylwadau ar y safle trwy geisiadau cynllunio 049320 a 050125.	Dim newid
STR3B Safle Datblygiad Defnydd Cymysg Warren Hall	Hafren Dyfrdwy	Caer	Mae disgwyl i'r datblygwyr ariannu ymchwiliadau cyn cynllunio. Daw ffynonellau posibl o gyllid gan ddatblygwyr y safle a/neu Hafren/Dyfrdwy y Byr/Hir (at 2028). Yn ddibynnol ar gyflenwi	Nid yw Dŵr Cymru yn cyflenwi dŵr i'r ardal hon. Bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig er mwyn penderfynu ar bwynt cysylltiad i'r system carthffosiaeth gyhoeddus a byddai disgwyl i ddatblygwyr posibl ariannu ymchwiliadau yn ystod y camau cyn cynllunio. Byddai casgliadau'r Asesiad yn dylanwadu ar unrhyw ddiweddariadau carthffosiaeth angenrheidiol y gellir ei gaffael drwy ddarpariaethau meddiant gorfodol Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd). Mae datblygwyr posibl angen bod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle yma a byddai angen mesurau amddiffyn ar ffurf lled hawddfrait neu wro'r carthffos, allai	Dim newid

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

			datblygiad, a/neu rhaglenni AMP7 (2020-2015); AMP8 (2025-2030) Hafren Dyfrdwy.	<p>effeithio ar ddwysedd y datblygiad y gellir ei gyflawni ar y safle. Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caer ymdopi â dŵr budr o safle arfaethedig y datblygiad.</p> <p>Darpariaeth cyflenwad dŵr yfed drwy uwchraddio gwaith trin dŵr gwastraff presennol neu isadeiledd oddi ar y safle er mwyn cynyddu capasiti i ymdopi â thwf fel y disgwylir. Newidiadau posibl hefyd i asedau presennol lle bo angen os ydynt yn rhedeg trwy safleoedd datblygu.</p>	
Dyraniadau Tai Haen 1 Prif Ganolfannau Gwasanaeth					
HN1. 1 Well Street, Bwcle, 159 uned	DCWW	Bwcle Tŷ Gwyn	Cynllun Rheoli Asedau DC neu'n gynt efallai trwy gyfraniadau gan y datblygwr.	Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn. Byddai'r twf arfaethedig yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Bwcle yn golygu gwelliannau a fyddai angen cael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu'n gynt efallai trwy gyfraniadau gan y datblygwr.	Dim newid
HN1. 2 Broad Oak Holdings, Ffordd yr	DCWW	Cei Connah		Mae caniatâd cynllunio ar y safle ac nid oes gennym sylw pellach i'w wneud. Mae Dŵr Cymru wedi gwneud	Dim newid

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

Wyddgrug, Cei Connah 32 uned				<p>sylwadau ar y safle trwy gais cynllunio 058583.</p> <p>Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod prif bibell ddŵr yn croesi'r safle hwn ac felly y bydd angen mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfrait neu wro'r brif bibell, a all effeithio ar ddwysedd y tai y gellir ei gyflawni ar y safle.</p>	
HN1.3 Highmere Drive, Cei Connah 150 uned	DCWW	Cei Connah		<p>Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn. Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Cei Connah ymdopi â dŵr budr o safle arfaethedig y datblygiad.</p>	Dim newid
HN1.4 Northop Road Fflint 170 uned	DCWW	Y Fflint		<p>Mae Dŵr Cymru wedi gwneud sylwadau ar y safle arfaethedig hwn drwy gais cynllunio 058314.</p> <p>Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.</p> <p>Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn.</p> <p>Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Y Fflint ymdopi â dŵr budr o safle arfaethedig y datblygiad.</p>	Dim newid
HN1.5	DCWW	Yr Wyddgrug		<p>Mae caniatâd cynllunio ar y safle ac nid oes gennym sylw pellach i'w wneud.</p> <p>Mae Dŵr Cymru wedi gwneud</p>	Dim newid

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

Maes Gwern Yr Wyddgrug, 160 uned				sylwadau ar y safle trwy geisiadau cynllunio 056742 a 058992.	
HN1.6 Tir rhwng Ffordd Dinbych a Ffordd Gwernaffield, Yr Wyddgrug, 246 uned	DCWW	Yr Wyddgrug		<p>Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.</p> <p>Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod prif bibell ddŵr 19” a 20” yn croesi’r safle hwn ac felly y bydd angen mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfrait neu wro’r brif bibell, a all effeithio ar ddwysedd y tai.</p> <p>Bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig er mwyn penderfynu ar bwynt cysylltiad i’r system carthffosiaeth gyhoeddus a byddai disgwyl i ddatblygwyr posibl ariannu ymchwiliadau yn ystod y camau cyn cynllunio. Byddai casgliadau’r Asesiad yn dylanwadu ar faint o waith diweddar sy’n angenrheidiol ar y garthffos, y gellir ei gaffael trwy ddarpariaethau mediant gorfodol Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y’i diwygiwyd).</p> <p>Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Yr Wyddgrug ymdopi â dŵr budr o safle arfaethedig y datblygiad.</p>	Dim newid
Dyraniadau Tai Haen 2 Prif Ganolfannau Gwasanaeth					
HN1.7 Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo, 298 uned	DCWW	Queensferry		<p>Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.</p> <p>Bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig er mwyn penderfynu ar bwynt cysylltiad i’r system carthffosiaeth gyhoeddus a byddai disgwyl i ddatblygwyr posibl</p>	Dim newid

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

				<p>ariannu ymchwiliadau yn ystod y camau cyn cynllunio. Byddai casgliadau'r Asesiad yn dylanwadu ar faint o waith diweddar sy'n angenrheidiol ar y garthffos, y gellir ei gaffael trwy ddarpariaethau meddiant gorfodol Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).</p> <p>Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle hwn ac felly y bydd angen lled hawddfrait, a all effeithio ar ddwysedd y tai y gellir ei gyflawni ar y safle.</p> <p>Byddai'r twf arfaethedig yn nalgyloch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Queensferry yn golygu gwelliannau a fyddai angen cael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu'n gynt efallai trwy gyfraniadau gan y datblygwr.</p>	
HN1.8 Ash Lane, Penarlâg. 288 uned	DCWW	Queensferr y		<p>Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.</p> <p>Bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig er mwyn penderfynu ar bwynt cysylltiad i'r system carthffosiaeth gyhoeddus a byddai disgwyl i ddatblygwyr posibl ariannu ymchwiliadau yn ystod y camau cyn cynllunio. Byddai casgliadau'r Asesiad yn dylanwadu ar faint o waith diweddar sy'n angenrheidiol ar y garthffos, y gellir ei gaffael trwy ddarpariaethau meddiant gorfodol</p>	Dim newid

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

				<p>Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).</p> <p>Byddai'r twf arfaethedig yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Queensferry yn golygu gwelliannau a fyddai angen cael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu'n gynt efallai trwy gyfraniadau gan y datblygwr.</p>	
<p>HN1. 9</p> <p>Wrexham Road HCAC 80 uned</p>	<p>Hafren Dyfrdwy</p>	<p>Yr Hôb</p>	<p>Daw ffynonellau posibl o gyllid gan ddatblygwyr y safle a/neu Hafren/Dyfrdw y Byr-Hir (at 2028). Yn ddibynnol ar gyflenwi datblygiad, a/neu raglenni AMP7 (2020-2015); AMP8 (2025-2030) Hafren Dyfrdwy.</p>	<p>Mae Dŵr Cymru wedi gwneud sylwadau ar y safle arfaethedig hwn drwy gais cynllunio 058163. Nid yw Dŵr Cymru yn cyflenwi dŵr i'r ardal hon.</p> <p>Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn.</p> <p>Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Yr Hôb ymdopi â dŵr budr o safle arfaethedig y datblygiad.</p> <p>Darpariaeth cyflenwad dŵr yfed drwy uwchraddio gwaith trin dŵr gwastraff presennol neu isadeiledd oddi ar y safle er mwyn cynyddu capasiti i ymdopi â thwf fel y disgwylir.</p> <p>Newidiadau posibl hefyd i asedau presennol lle bo angen os ydynt yn rhedeg trwy safleoedd datblygu.</p>	<p>Dim newid</p>
<p>Dyraniadau Tai Haen 3 Aneddiadau Cynaliadwy</p>					

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

HN1. 10 Cae Isa A5119, New Brighton	DCWW	Yr Wyddgrug		Mae Dŵr Cymru wedi gwneud sylwadau ar y safle arfaethedig hwn drwy gais cynllunio 060220. Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffosydd yn croesi'r safle hwn ac felly y bydd angen lled hawddfrait, a all effeithio ar ddwysedd y tai y gellir ei gyflawni ar y safle.	Dim newid
HN1.11 Chester Road Penymynydd 186 uned	DCWW a CD	Yr Hôb		Mae caniatâd cynllunio ar y safle ac nid oes gennym sylw pellach i'w wneud. Mae Dŵr Cymru wedi gwneud sylwadau ar y safle trwy gais cynllunio 055590.	
Dyraniadau Safle Sipsiwn a Theithwyr					
HN8.1 Magazine Lane, Ewlo	DCWW	Queensferr y		Mae caniatâd cynllunio ar y safle ac nid oes gennym sylw pellach i'w wneud. Mae Dŵr Cymru wedi gwneud sylwadau ar y safle trwy gais cynllunio 050463.	Dim newid
HN8. 2 Gwern Lane Cae Estyn Yr Hôb	Hafren Dyfrdwy	Yr Hôb	Daw ffynonellau posibl o gyllid gan ddatblygwyr y safle a/neu Hafren/Dyfrdw y Byr-Hir (at 2028). Yn ddibynnol ar gyflenwi	Nid yw Dŵr Cymru yn cyflenwi dŵr i'r ardal hon. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn. Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Yr Hôb ymdopi â dŵr budr o safle arfaethedig y datblygiad.	Dim newid

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

			datblygiad, a/neu raglenni AMP7 (2020-2015); AMP8 (2025-2030) Hafren Dyfrdwy.	Darpariaeth cyflenwad dŵr yfed drwy uwchraddio gwaith trin dŵr gwastraff presennol neu isadeiledd oddi ar y safle er mwyn cynyddu capasiti i ymdopi â thwf fel y disgwylir. Newidiadau posibl hefyd i asedau presennol lle bo angen os ydynt yn rhedeg trwy safleoedd datblygu.	
HN8.3 Riverside Queensferry	DCWW	Queensferry		Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn. Byddai'r twf arfaethedig yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Queensferry yn golygu gwelliannau a fyddai angen cael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu'n gynt efallai trwy gyfraniadau gan y datblygwr. Mae'r safle wedi'i leoli'n agos at safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Queensferry ac efallai bod yr awdurdod cynllunio lleol eisiau cysylltu â'u Hadran lechyd yr Amgylchedd i ganfod a oes yna bosibilrwydd am niwsans aroglau ar y dyraniad arfaethedig.	Dim newid
HN8.4 Ystâd Ddiwydiannol Parc y Castell, Y Fflint	DCWW	Y Fflint		Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r	Dim newid

CDLI Sir YFlint –Datganiad Tir Cyffredin – Chwefror 2021
Dwr Cymru / Hafren Dyfrdwy (DC/HD)

				safle datblygu hwn. Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Y Fflint ymdopi â dŵr budr o safle arfaethedig y datblygiad.	